Myfyrwyr a Graddedigion

Dechrau gwych gyda chymorth gennym ni

NatWest

Helpful Banking

Siarter Cwsmeriaid NatWest

Ein hymrwymiad i chi

Ein nod yw bod y Banc mwyaf Hwylus ym Mhrydain. Felly aethom ati i holi beth oeddech chi am ei gael gennym ni. Cawsom bedwar ateb.

- Gwneud bancio'n haws
- Eich helpu pan fydd arnoch angen hynny
- Cefnogi'r cymunedau ble'r ydym yn byw a gweithio
- Gwrando arnoch chi

Gyda'r ymateb hwnnw aethom ati i lunio ein Siarter Cwsmeriaid. Mae'n cynnwys 14 ymrwymiad ac mae'n ganllaw i'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym. Nid ydym yn disgwyl gallu cyflawni pob ymrwymiad ar unwaith ond rydym yn awyddus i fod yn agored am ein cynnydd. Felly, bydd cwmni annibynnol yn mesur ein perfformiad yn erbyn ein hymrwymiadau bob chwe mis a byddwn yn cyhoeddi ei adroddiad er mwyn i chi weld beth rydym yn ei wneud yn dda a lle mae angen i ni wella.

I ddarllen ein Siarter Cwsmeriaid, ewch i natwest.com/ourcharter

Cynnwys

Rydym eisiau eich helpu i fanteisio i'r eithaf ar eich amser a'ch arian wrth i chi astudio, ac wrth ddechrau ar eich gyrfa.

Cipolwg ar ein holl ddewisiadau ar gyfer myfyrwyr a graddedigion 4

Bancio i fyfyrwyr 6

Dewisiadau ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol 8

Yswiriant cynnwys Essentials 9

Bancio i raddedigion 10

Ffyrdd o fancio gyda ni 12

Cymorth ychwanegol pan fydd arnoch angen hynny 13

Y camau nesaf 14

Sut i wneud cais 15

Cipolwg

Mae'r tabl yn dangos ein holl ddewisiadau ar gyfer myfyrwyr a graddedigion.

	A ydych chi'n astudio?		
Os ydych yn chwilio am	**Gyfrif Cyfredol Myfyrwyr**	**Cerdyn Credyd Myfyrwyr**	**Yswiriant Cynnwys Essential**
Y manteision	■ Cynghorwyr myfyrwyr wrth law i helpu ■ Cerdyn debyd Visa i'w ddefnyddio gartref a thramor ■ Yn eich blwyddyn gyntaf yn y coleg, rydym yn cynnig terfyn gorddrafft di-log o hyd at £500 yn eich tymor cyntaf, £750 yn eich ail dymor a £1,000 yn eich trydydd tymor	■ I gael manylion ein Cardiau Credyd Myfyrwyr diweddaraf, ewch i **natwest.com** neu ewch i'ch cangen leol	■ Dewiswch swm i'w yswirio, er mwyn peidio â thalu mwy nag sydd raid ■ Gallwch drefnu yswiriant ychwanegol ar gyfer eitemau unigol, fel chwaraewr MP3, gliniadur, beic a ffôn symudol (mae terfyn eitem unigol o £250 ar gyfer offer electronig). Ac os byddwch yn mynd â'r eitemau allan o'ch tŷ, rydych wedi'ch yswirio o hyd. ■ Fe wnawn ni eich yswirio yn y tŷ rydych yn ei rannu neu yn eich neuadd breswyl
Beth ddylech chi ei wybod	Rhaid i'r Cyfrif Cyfredol Myfyrwyr fod yn brif gyfrif banc i chi a derbyn taliadau yn rheolaidd I fod yn gymwys i gael gorddrafft bydd angen i chi fod dros 18 a chodi arian o leiaf dair gwaith bob mis a thalu un credyd bob tri mis	Bydd angen i chi fod dros 18 a chael Cyfrif Cyfredol Myfyrwyr NatWest i wneud cais Terfyn credyd cychwynnol o hyd at £500	UK Insurance Cyf. sy'n darparu ein holl bolisïau yswiriant cartref
Mwy o wybodaeth ar dudalen	6	7	9

A ydych chi'n fyfyriwr rhyngwladol?	A ydych wedi graddio?	
Advantage Blue International – Dewis Myfyrwyr	**Cyfrif Graddedigion**	**Cerdyn credyd**
■ Yswiriant ffôn symudol ■ Railcard 16–25 ■ Cerdyn Adnabod Rhyngwladol Myfyrwyr – ar gyfer myfyrwyr llawn amser ■ 25% oddi ar berfformiadau a sioeau byw	■ Cerdyn debyd Visa i'w ddefnyddio gartref a thramor ■ Gorddrafft o hyd at £2,000 ■ Rheolwch eich arian dros y ffôn, ar eich ffôn symudol neu ar lein	■ I gael manylion ein holl Gardiau Credyd, ewch i **natwest.com** neu ewch i'ch cangen leol
Gydag Advantage Blue International – Dewis Myfyrwyr y mae ffi fisol o £6.95 Gallwch ychwanegu'r pecyn hwn at eich cyfrif Step	Bydd angen i chi fod dros 18 i wneud cais am orddrafft. Yna am y flwyddyn gyntaf ni fydd raid i chi dalu llog ar unrhyw orddrafft sydd wedi'i drefnu hyd at £2,000. O'r ail flwyddyn, bydd y swm a gewch yn ddi-log yn lleihau'n raddol, fel y byddwch yn dechrau talu llog ar y gweddill	Bydd raid i chi gael cyfrif cyfredol NatWest i wneud cais a bod dros 18 oed. Mae meini prawf cymhwysedd yn berthnasol.
8	10	11

Bancio i fyfyrwyr

Os ydych yn fyfyriwr, gallwn eich helpu i reoli eich arian yn ystod eich holl amser yn y brifysgol.

Ein Dewisiadau i fyfyrwyr

Cyfrif Cyfredol Myfyrwyr

Os ydych yn preswylio'n barhaol yn y Deyrnas Unedig ac ar gwrs addysg uwch israddedig llawn amser (sy'n para am ddwy flynedd neu fwy), neu ar gwrs llawn amser ôl-raddedig, mae gennym gyfrif myfyrwyr i chi. Ac mewn pleidlais yng nghylchgrawn *Your Money* yn 2010, ni oedd y gorau am ddarparu gwasanaethau bancio ar lein i fyfyrwyr.

- Rheolwch eich arian dros y ffôn neu ar lein.
- Cewch weld eich balans a chyfriflenni ar eich ffôn symudol.
- Gallwch roi arian ar eich ffôn symudol yn unrhyw rai o'n peiriannau twll yn y wal.
- Mae cynghorwyr myfyrwyr wrth law i'ch helpu gyda'ch arian.
- Gyda cherdyn debyd Visa gallwch dalu am eich siopa o ddydd i ddydd, gartref neu dramor. Mae ffïoedd i'w talu am ddefnyddio eich cerdyn dramor – ewch i **natwest.com/debitcards** i gael gwybod mwy.
- Rhaid i'ch Cyfrif Cyfredol Myfyrwyr gael ei ddefnyddio yn brif gyfrif banc i chi, gan dderbyn taliadau yn rheolaidd.

Oeddech chi'n gwybod?

Os ydych yn bwriadu teithio cyn dechrau yn y brifysgol mae gennym ganllaw am ddim i Flwyddyn Allan i'ch helpu. Ewch i **natwest.com/students** neu eich cangen leol i gael gwybod mwy.

Gorddrafft i Fyfyrwyr

- Gallwch wneud cais am orddrafft di-log o hyd at £1,000 yn eich blwyddyn gyntaf. Hyd at £2,000 yn eich pumed flwyddyn.
- I'ch helpu i drefnu eich arian, yn eich blwyddyn gyntaf o astudio, rydym yn cynnig terfyn o hyd at £500 yn eich tymor cyntaf, £750 yn eich ail dymor a £1,000 yn eich trydydd tymor.
- I gael gorddrafft di-log bydd angen i chi fod dros 18 a defnyddio'r cyfrif fel eich prif gyfrif. Bydd raid i chi godi arian o'r cyfrif o leiaf dair gwaith bob mis a thalu un credyd bob tri mis. Os na fyddwch yn defnyddio eich cyfrif fel eich prif gyfrif, fe allem benderfynu diddymu eich gorddrafft di-log. Rhaid ad-dalu gorddrafftiau ar ein cais.

Wedi dechrau eich blwyddyn gyntaf yn y Brifysgol yn 2010?

Rydym yn cynnig:	
Blwyddyn 1	
- Tymor 1	£500
- Tymor 2	£750
- Tymor 3	£1,000
Blwyddyn 2	£1,250
Blwyddyn 3	£1,500
Blwyddyn 4	£1,750
Blwyddyn 5	£2,000

Eisoes yn eich 2il, 3edd, 4edd neu 5ed flwyddyn?

Rydym yn cynnig:	
Blwyddyn 2	£1,400
Blwyddyn 3	£1,600
Blwyddyn 4	£1,800
Blwyddyn 5	£2,000

Cerdyn Credyd Myfyrwyr

- Terfyn credyd cychwynnol o hyd at £500.
- I wneud cais, bydd angen i chi fod dros 18 oed a bod â Chyfrif Cyfredol Myfyrwyr NatWest.
- I gael manylion ein holl Gardiau Credyd Myfyrwyr diweddaraf, ewch i **natwest.com** neu ewch i'ch cangen leol.

Dewisiadau ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol

Am £6.95 y mis yn unig, gallwch ychwanegu Advantage Blue International – Dewis Myfyrwyr at eich cyfrif cyfredol Step. Mae'n cynnwys amryw o fanteision a gostyngiadau ychwanegol.

- Yswiriant ffôn symudol, sy'n yswirio un ffôn ac un SIM hyd at werth adwerthol gwreiddiol o £750 (gan gynnwys TAW) unwaith y byddwch wedi cofrestru.
- Yswiriant ar gyfer eich dyfeisiau fel consolau gemau a chwaraewyr MP3 (mae terfyn eitem unigol o £250 ar gyfer offer electronig).
- Railcard 16-25 i gael 1/3 oddi ar docynnau trên ar hyd a lled y Deyrnas Unedig am flwyddyn. Rhaid i chi fod rhwng 16 a 25.
- Ein Gwasanaeth Concierge amlieithog sy'n rhoi mynediad at amryw o wasanaethau mewn nifer o ieithoedd – o gymorth gyda threfniadau teithio i archebu bwrdd mewn bwyty neu drefnu plymwr lleol.
- Cerdyn Adnabod Myfyrwyr Rhyngwladol (ISIC) sy'n rhoi dros 40,000 o ostyngiadau ffordd o fyw ac ar lein yma a thramor (ar gyfer myfyrwyr llawn amser).
- 25% oddi ar berfformiadau a sioeau byw, yn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig. Rhaid archebu tocynnau trwy ein Swyddfa Docynnau a gallwch archebu hyd at ddau docyn ar gyfer pob digwyddiad.
- Cerdyn SIM Orange sy'n gadael i chi wneud galwadau rhyngwladol o 5c y funud.
- Numbers Vault™ i gadw eich rhifau ffôn a'ch cysylltiadau yn ddiogel.
- A chopi o 'A Guide to Banking in the UK' gyda gwybodaeth ar fancio yn y Deyrnas Unedig a chyngor ynghylch sut i reoli eich arian fel myfyriwr. Mae hwn ar gael mewn pum iaith.
- Gyda cherdyn debyd Visa gallwch dalu am eich siopa o ddydd i ddydd gartref neu dramor. Mae ffïoedd i'w talu am ddefnyddio eich cerdyn dramor.
- Ewch i **natwest.com/debitcards** i gael gwybod mwy.

Cofiwch

Pryd bynnag y bydd gennych gwestiynau, siaradwch â'ch Cynghorydd Myfyrwyr. Mae'n wasanaeth am ddim, ac maen nhw'n deall sut mae pethau'n gweithio mewn prifysgolion yn y Deyrnas Unedig.

Yswiriant cynnwys Essentials

Cymorth ychwanegol

Mae'n hawdd anghofio yswirio eich pethau pan ydych yn byw oddi cartref. Os ydych yn byw mewn neuadd breswyl neu'n rhannu neu rentu llety, mae ein hyswiriant syml yn golygu y gallwch ddiogelu'r pethau sy'n werthfawr i chi.

- Dewiswch swm i'w yswirio, er mwyn peidio â thalu mwy nag sydd raid.
- Gallwch yswirio llyfrau llyfrgell y coleg neu'r brifysgol (hyd at £200) neu eitemau ar fenthyg gan y coleg (hyd at £500) rhag cael eu colli neu eu dwyn.
- Gallwch drefnu yswiriant ychwanegol ar gyfer eitemau unigol, chwaraewr MP3, gliniadur, beic a ffôn symudol (mae terfyn eitem unigol o £250 ar gyfer offer electronig). Ac os byddwch yn mynd â'r eitemau allan o'ch tŷ, rydych wedi'ch yswirio o hyd.
- Os bydd arian yn cael ei ddwyn o'ch cartref fe gewch werth hyd at £50 o yswiriant. Ac fe gewch werth £500 o yswiriant os bydd rhywun yn defnyddio eich cerdyn credyd heb eich caniatâd (ac eithrio os mai eich teulu sydd wedi defnyddio eich cerdyn).

Bancio i raddedigion

Mae'n gallu bod yn anodd symud o astudio'n llawn amser i swydd lawn amser. Mae ein cyfrif Graddedigion yn ceisio gwneud y broses yn haws i chi.

Ein dewisiadau ar gyfer graddedigion

Os ydych wedi gadael y brifysgol, fe all ein Cyfrif Graddedigion eich helpu i ofalu am eich arian tra byddwch yn aros am eich slip cyflog cyntaf.

- Gallwch reoli eich arian unrhyw bryd yn ystod y dydd neu'r nos, dros y ffôn neu ar lein.
- Cerdyn debyd Visa er mwyn gallu talu am eich holl siopa, gartref a thramor. Mae ffioedd i'w talu am ddefnyddio eich cerdyn dramor – ewch i **natwest.com/debitcards** i gael gwybod mwy.
- Gallwch weld eich balans a chyfriflenni ar eich ffôn symudol.

Os oes gennych gyfrif Myfyrwyr gyda ni yn barod, fe wnawn ni uwchraddio eich cyfrif yn awtomatig ym mis Gorffennaf y flwyddyn rydych yn graddio. Os nad oes gennych Gyfrif Myfyrwyr NatWest, gallwch agor Cyfrif Graddedigion o hyd, cyn belled â'ch bod wedi graddio o gwrs addysg uwch llawn amser (sy'n para am ddwy flynedd neu fwy) yn y tair blynedd diwethaf.

Oeddech chi'n gwybod?

Os ydych eisiau sefydlu eich busnes eich hun ar ôl graddio, mae gennym Reolwyr Busnes profiadol i'ch helpu gyda chefnogaeth, cyrsiau sefydlu busnes am ddim a phecynnau bancio. I gael gwybod mwy ewch i **natwest.com/business** neu ffoniwch **0800 881 771**

Gorddrafft i Raddedigion

Bydd y gorddrafft a gewch yn eich helpu i symud o orddrafft di-log i un sy'n codi llog.

- Am y flwyddyn gyntaf ni fydd raid i chi dalu llog ar unrhyw orddrafft sydd wedi'i drefnu hyd at £2,000.
- Os byddwch yn graddio cyn 1 Ionawr 2013, bydd y trothwyon di-log canlynol yn gymwys:

Blwyddyn	Terfyn gorddrafft cyffredinol	Di-log
1	£2,000	£2,000
2	£2,000	£1,000
3	£2,000	£500

- Ar ôl 1 Ionawr 2013 bydd ein Cyfrif Graddedigion yn newid ac felly os byddwch yn graddio ar ôl y dyddiad hwn, y trothwyon gorddrafft canlynol fydd yn gymwys:

Blwyddyn	Terfyn gorddrafft cyffredinol	Di-log
1	£2,000	£2,000
2	£2,000	£1,000

- I wneud cais am orddrafft bydd angen i chi fod dros 18. Rhaid ad-dalu gorddrafftiau ar ein cais.

Cerdyn Credyd

- Bydd raid i chi gael cyfrif cyfredol NatWest i wneud cais a bod dros 18 oed. Mae meini prawf cymhwysedd yn berthnasol.
- I gael manylion ein holl Gardiau Credyd, ewch i **natwest.com** neu ewch i'ch cangen leol.

Ffyrdd o fancio gyda ni

Fel popeth mewn bywyd, efallai na fydd ffordd o fancio sy'n addas i un person yn briodol ar gyfer rhywun arall. Felly oni fyddai'n well petaech yn gallu dewis drosoch eich hun? Dyna rydym ni'n ei gredu. Dyna pam ein bod yn dangos yr holl ddewisiadau a gadael i chi benderfynu. Felly beth yw'r dewisiadau?

Bancio ar lein

Rheoli eich arian, pryd bynnag a ble bynnag y dymunwch, gyda bancio ar lein.

- Gweld eich balans diweddaraf a chyfriflenni bach.
- Chwilio trwy gyfriflenni ar lein – gan fynd yn ôl hyd at saith mlynedd.
- Trosglwyddo arian ar unwaith rhwng eich cyfrifon NatWest.

Eich cadw'n ddiogel

Rydym eisiau sicrhau bod eich profiad bancio ar lein mor saff a diogel â phosib. Mae ein meddalwedd Rapport yn helpu i ddiogelu eich manylion mewngofnodi wrth fancio ar lein, gan gadw eich hunaniaeth yn saff.

I gael gwybod mwy ewch i **natwest.com/online**

Bancio dros y ffôn

Gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth am ddim unrhyw adeg – gartref neu dramor. Byddwch chi'n talu am yr alwad yn unig.

- Gweld eich balans a chyfriflenni.
- Trosglwyddo ar unwaith rhwng eich cyfrifon NatWest, talu biliau a gwneud taliadau i bobl eraill.
- Archebu arian tramor.

I gael gwybod mwy ffoniwch **0800 88 11 77**.
(Minicom 0800 404 6161).

Bancio dros ffôn symudol

Mae yna ffordd hawdd o gadw mewn cysylltiad â'ch arian hyd yn oed wrth grwydro – gan ddefnyddio eich ffôn symudol.

- Cael neges testun bob wythnos sy'n dangos balans eich cyfrif.
- Fe wnawn ni anfon neges testun atoch pan fydd eich cyfrif yn taro'r terfynau uchaf neu isaf y byddwch chi'n eu gosod.
- Gweld balans diweddaraf eich cyfrif neu gyfriflen fach sy'n dangos y chwe eitem ddiwethaf ar eich cyfrif.

Pethau y dylech eu gwybod

Gallwch ddefnyddio bancio dros ffôn symudol ar bron pob ffôn symudol. Gwnewch yn siŵr fod eich ffôn yn gallu cefnogi Java, yn gallu cysylltu â'r rhyngrwyd gan ddefnyddio WAP neu 3G a bod ganddo o leiaf un cilobeit o gof yn rhydd.

Mae cyfraddau negeseuon rhwydwaith safonol yn gymwys wrth ddefnyddio'r gwasanaeth ac weithiau mae'n bosib y bydd costau rhwydwaith ychwanegol i'w talu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth dramor. Mae'n bwysig holi darparwr eich rhwydwaith am hyn.

I gael gwybod mwy ewch i **natwest.com/mobilephone**

Pethau i'w cofio

Weithiau rhaid i ni ddiweddaru ein systemau bancio dros y ffôn ac ar lein. Gall hyn olygu o bosib na fyddant ar gael am gyfnod byr – ond byddwn yn gwneud hyn yn ystod oriau mân y bore yn unig.

Cymorth ychwanegol pan fydd arnoch angen hynny

Boed chi angen help llaw gyda chyllid, gostyngiadau neu fywyd myfyriwr, mae'r safleoedd hyn yn cynnig arweiniad gan fyfyrwyr a phobl broffesiynol a fu yn yr un sefyllfa eu hunain.

Anelu'n Uwch

Fe gewch wybodaeth am gyrsiau, arian, bywyd myfyriwr a graddio. Gallwch hyd yn oed addasu'r safle i gael cyngor ar sail eich sefyllfa chi.

aimhigher.ac.uk

Advice Guide

Fe gewch wybodaeth ymarferol am fudd-daliadau, tai, hawliau cyflogaeth, dyledion a threth.

adviceguide.org.uk

Direct Gov

Mae'r wefan hon yn cynnig cyngor ar gyrsiau, arian, tai a mwy. Gallwch gofrestru hefyd i gael DVD Arian sydd am ddim (neu ei wylio ar lein).

dfes.gov.uk/hestudents

Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr

Cliciwch i gael gwybodaeth werthfawr gan NUS Ar Lein.

nusonline.co.uk

UCAS

UCAS sy'n rheoli ceisiadau ar gyfer cyrsiau addysg uwch. Defnyddiwch UCAS i reoli eich cais o'r dechrau i'r diwedd.

ucas.co.uk

Cyngor y DU dros Faterion Myfyrwyr Rhyngwladol

Fe gewch yr holl wybodaeth anghenrheidiol ar fewnfudo, fisas, ffioedd, ariannu a gweithio yn y Deyrnas Unedig. Hefyd mae llawer o ganllawiau defnyddiol i'w lawrlwytho a'u cadw.

ukcisa.org.uk

Eich camau nesaf

Gwneud cais

I wneud cais am gyfrif Myfyrwyr neu Raddedigion, rhaid i chi breswylio'n barhaol yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn golygu y dylech fod wedi byw yn y Deyrnas Unedig am dros dair blynedd. I agor Cyfrif Myfyrwyr bydd angen hefyd i chi fod ar gwrs israddedig llawn amser, neu ar fin dechrau ar gwrs o'r fath, sy'n para am o leiaf ddwy flynedd, neu gwrs ôl-raddedig llawn amser mewn prifysgol gydnabyddedig yn y Deyrnas Unedig.

I wneud cais am Gyfrif Graddedigion, bydd angen i chi fod wedi graddio o gwrs addysg uwch llawn amser (sy'n para am ddwy flynedd neu fwy) yn y tair blynedd diwethaf. Os oes gennych eisoes gyfrif Myfyrwyr gyda ni, fe wnawn ni uwchraddio eich cyfrif yn awtomatig ym mis Gorffennaf y flwyddyn rydych yn graddio.

Beth fyddwn ni ei angen

Gyda'r ffurflen gais wedi'i llenwi ar gyfer y cyfrif rydych eisiau ei agor, bydd angen i chi gyflwyno prawf o bwy ydych chi.

Byddwn yn derbyn unrhyw un o'r rhain:

- pasbort cyfredol wedi'i lofnodi;
- rhaid i bobl a aned y tu allan i'r UE gyflwyno pasbort gyda fisa dilys;
- cerdyn adnabod cenedlaethol yr UE;
- cerdyn adnabod Lluoedd Arfog y DU;
- trwydded yrru lawn gyfredol y DU (os ydych dros 17); neu
- gerdyn adnabod neu ymaelodaeth gyfredol myfyrwyr (o brifysgol neu goleg cydnabyddedig).

Hefyd, fel prawf o'ch cyfeiriad bydd angen un gwreiddiol o blith y canlynol:

- cyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu o'r chwe mis diwethaf;
- llythyr derbyn gan y brifysgol neu'r coleg neu gynnig cofrestru;
- llythyr gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr; neu
- lythyr UCAS.

Os ydych yn gwneud cais am Gyfrif Myfyrwyr, bydd angen tystiolaeth eich bod yn astudio hefyd:

- llythyr UCAS;
- eich llythyr derbyn oddi wrth brifysgol; neu
- eich cerdyn NUS.

Dyma sy'n digwydd nesaf

Unwaith y byddwn yn cytuno i'ch cais, fe wnawn ni agor eich cyfrif ac o fewn 10 diwrnod byddwch yn derbyn eich cerdyn debyd, Rhif Adnabod Personol (PIN) a Phecyn Croeso. Byddwn yn anfon y rhain i gyd ar wahân atoch oherwydd diogelwch.

Sut i wneud cais

Nawr ein bod wedi egluro'r hyn sydd ei angen i agor eich cyfrif myfyrwyr a graddegion, dyma'r cam nesaf.

Dewch i'n gweld yn eich cangen NatWest leol neu ewch i natwest.com/students neu natwest.com/graduates

Neu siaradwch â ni ar y rhifau canlynol. Gallwn recordio galwadau.

Cyfrif myfyrwyr neu raddedigion

Ffoniwch ni ar 0800 881 771 (Minicom 0800 917 0526)
8am i 8pm dydd Llun i ddydd Gwener a 9am i 6pm ar ddydd Sadwrn.

Cardiau credyd

Ffoniwch ni ar 0800 096 0220 (Minicom 0800 028 5304)
9am i 5pm dydd Llun i ddydd Sadwrn.

Ymholiadau busnes

Ffoniwch ni ar 0800 028 2677 (Minicom 0800 404 6161)
8am i 7pm dydd Llun i ddydd Gwener.

Rhifau defnyddiol eraill

Os oes gennych ddiddordeb yn ein dewisiadau ar gyfer myfyrwyr a graddedigion, beth am weld a fyddai ein cyfrifon cynilo yn apelio atoch hefyd. Dyma sut i gael mwy o wybodaeth.

Gallwch siarad â rhywun yn eich cangen NatWest leol neu ewch i natwest.com

Fel arall, ffoniwch ni ar un o'r rhifau canlynol. Gallwn recordio galwadau.

Cyfrifon cynilo

Ffoniwch 0800 255 200 (Minicom 0800 917 0526)
8am i 8pm dydd Llun i ddydd Gwener a 9am i 6pm ar ddydd Sadwrn.

National Westminster Bank Plc, 135 Bishopsgate, London EC2M 3UR.
Registered Number: 929027, England.

NWB4437 25 Chwefror 2011